# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Andrea Lewis | Adran Etholiadol: | Treforys |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau (Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Pobl gynt) |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

<u>Sylweddau Seicoweithredol Newydd – adwaenir hefyd fel “Gwefrau Cyfreithlon”</u>

Fel y gwyddoch, dros y 18 mis diwethaf, rydym wedi cael problemau yn Abertawe ynghylch cyflenwad sylweddau seicoweithredol newydd i'n pobl ifanc, ddiamddiffyn, gan achosi problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a phryderon difrifol am eu hiechyd a'u diogelwch.

Dros y flwyddyn ddiwethaf hon, rwyf wedi bod yn hynod ragweithiol yn fy rôl fel cynghorydd wrth geisio ymdrin â phla sylweddau seicoweithredol newydd.

Chwaraeais rôl sylweddol wrth lunio'r Rhybudd o Gynnig i'r cyngor ym mis Tachwedd 2014 gan alw ar y Llywodraeth Ganolog i gyflwyno gwaharddiad hollgynhwysfawr i atal gwerthu a dosbarthu'r sylweddau peryglus iawn hyn. Ni yw'r awdurdod lleol cyntaf yn y DU i wneud hyn. Roedd y Rhybudd o Gynnig hefyd yn tynnu sylw at ein pryderon fel awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru ynglŷn ag effaith niweidiol y cynhyrchion gwenwynig hyn.

Rwyf wedi gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru a'n Tîm Safonau Masnach yn yr awdurdod lleol i edrych ar ffyrdd o gyfyngu ar hygyrchedd sylweddau seicoweithredol newydd.

Rhoddais dystiolaeth, yn y Senedd yng Nghaerdydd, i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (LlC), ac euthum i lansiad Adroddiad LlC a roddodd 14 o argymhellion ynglŷn â mynd i'r afael â materion sylweddau seicoweithredol newydd. Roedd yr argymhellion hyn yn canolbwyntio ar ddarparu ymwybyddiaeth well trwy addysg a oedd hefyd yn galw ar y Llywodraeth Ganolog i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd yr holl sylweddau seicoweithredol newydd cyn gynted ag y bo modd.

Roeddwn wrth fy modd clywed araith y Frenhines a oedd yn pennu bwriad y Llywodraeth Ganolog i wahardd yr holl sylweddau seicoweithredol yn unol â chynigion a gyflwynwyd gennym fel cyngor yn ein Rhybudd o Gynnig.

Yn fwy lleol, rwyf wedi cyfarfod â phreswylwyr, teuluoedd a masnachwyr lleol di-rif ynglŷn â'r effaith mae'r sylweddau hyn wedi'i chael ar eu bywydau dyddiol.

Rwy'n benderfynol y byddwn yn parhau â'n hymdrechion fel awdurdod lleol i gyflwyno addysg ac ymwybyddiaeth well o'r cynhyrchion hyn a mynd i'r afael â'r mater hwn ar ein Strydoedd Mawr. Fel awdurdod, nid ydym yn bwriadu aros am ddeddfwriaeth a byddwn yn parhau i arwain y ffordd.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 3 / 3 | 100% |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 6 / 7 | 86% |
| Pwyllgor Cynghori’r Cabinet - Cymunedau | 3 / 3 | 100% |
| Y Cyngor | 15 / 17 | 88% |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 3 / 4 | 75% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 / 7 | 86% |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 4 / 9 | 44% |
| Pwyllgor Cynghori’r Cabinet – Pobl | 4 / 4 | 100% |
| Pwyllgor Cynllunio | 4 / 6 | 67% |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 1 / 3 | 33% |
| CYFFREDINOL | 49 / 63 | 78% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 0 / 1 | 0% |
| CYFFREDINOL | 0 / 1 | 0% |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Yn ystod y flwyddyn ddinesig 2014-2015, mae gennyf (ac ar adeg llunio'r adroddiad mae gennyf o hyd) swydd Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau, a roddodd gefnogaeth i'r Cynghorydd Will Evans ac Aelod y Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cynghorydd David Hopkins. Cadeiriais gyfarfodydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet yn fisol.

Aelod prysur o'r Pwyllgor Cynllunio, yn mynd i gyfarfodydd, hyfforddiant ac ymweliadau safle pan oedd angen.

Cynrychiolydd y cyngor ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) gan fynd i sawl cyfarfod yng Nghaerdydd.

Cyfarwyddwr Bay Leisure Cyf ac aelod o Dribiwnlys Prisio Gorllewin Cymru.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

<u>Cynnau goleuadau Nadolig Treforys</u>

Gweithiodd fy nghydweithwyr ward a fi gyda Siambr Masnach Treforys i drefnu'r “Digwyddiad Cynnau Goleuadau Nadolig” yn Nhreforys a oedd yn llwyddiant ysgubol. Hoffwn ddiolch i bawb a oedd yn rhan wrth wneud y digwyddiad eleni mor llwyddiannus a diolch yn arbennig i Dabernacl Treforys am ganiatáu i ni ddefnyddio'i safle.

<u>Arddangosfeydd Blodau</u>

Trefnodd fy nghydweithwyr ward a fi'r arddangosfeydd blodau helaeth trwy gydol Ward Treforys ac mae'n bleser gennyf ddweud y bydd cynllun y flwyddyn hon yn cynnwys blodau gwyllt a bydd hyd yn oed yn fwy ac yn well.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

19/11/2014 - Rôl Aelodau Etholedig wrth Gefnogi a Hyrwyddo Sipsiwn (Roma) a Theithwyr

Ar ben hyn, euthum i Gynhadledd Sands ar 12 Mawrth 2015 a Chwrs Hyfforddi Sands ar Sylweddau Seicoweithredol Newydd ar 25 Mawrth 2015.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roeddwn yn ymdrin â nifer mawr o faterion ward ar ran preswylwyr Treforys, gan gynnwys tipio anghyfreithlon, parcio, tai a phryderon eraill.

Roeddwn yn cynnal cymorthfeydd cynghorwyr ar sail rota gyda'm cydweithwyr ward yn Llyfrgell Treforys. Roeddwn hefyd yn cynnal cymorthfeydd misol yn y Neuadd Goffa, Cwmrhydyceirw.

Roeddwn (ac rwy'n parhau i fod) yn aelod o fwrdd y neuadd goffa.

Roeddwn yn mynd i gyfarfodydd PACT yn rheolaidd a hefyd nifer o gyfarfodydd Cymdeithas Preswylwyr Stryd y Farchnad.

Euthum i gyfarfodydd fel llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Pentre'r Graig ac Ysgol Gynradd Treforys.

Euthum i sawl cyfarfod Cymunedau'n Gyntaf, gan gynnwys Grŵp Llywio Clwstwr y Gogledd-ddwyrain a Fforwm Cymunedau'n Gyntaf Treforys a hefyd y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar gyfer cadeiryddion ac aelodau ward. Hefyd, euthum i Ddigwyddiad Dathlu Cymunedau'n Gyntaf - Clwstwr y Gogledd-ddwyrain a gynhaliwyd ym mis Mawrth, gan dalu teyrnged i wirfoddolwyr lleol am eu cyflawniadau.

Euthum i gyfarfodydd Gweithrediaeth a Grŵp Llafur rheolaidd. Roeddwn ac rwy'n parhau i fod yn Ysgrifennydd Grŵp Llafur Dinas a Sir Abertawe.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £22,000 Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau (Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Pobl gynt)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 29.05.15 |